**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

17 Mawrth 2026

Annwyl gyfaill,

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad dair blynedd ar ôl gweithredu Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. Mae'r Ddeddf yn diogelu plant yng Nghymru rhag ymosodiadau yn yr un modd ag oedolion, ac mae'n golygu bod cosbi plant yn gorfforol yn cael ei wahardd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

Mae canfyddiadau'r Adolygiad Ôl-Weithredu yn galonogol. Mae gweithredu'r Ddeddf yn mynd rhagddo'n dda ac yn bennaf fel y bwriadwyd, gan gefnogi'r nod creiddiol o gynnal hawliau plant ac ar yr un pryd hyrwyddo dull gweithredu addysgol ac ataliol sy'n osgoi gwneud rhieni yn droseddwyr. Mae agweddau'r cyhoedd, ymarfer proffesiynol, a'r gwasanaethau a ddarperir yn fwy a mwy yn adlewyrchu'r newid mewn ymddygiad i ffwrdd o gosbi corfforol.

Fodd bynnag, mae'r adolygiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod ymwybyddiaeth o adnoddau gweithredu presennol yn anghyson ar draws rhai grwpiau proffesiynol. Er mwyn cefnogi rhoi'r Ddeddf ar waith yn effeithiol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi:

- godi ymwybyddiaeth ar draws eich sefydliad o'r adnoddau helaeth a gynhyrchir i gefnogi gweithwyr proffesiynol i weithredu'r Ddeddf, ac
- ymgorffori dolenni cyswllt i'r adnoddau hynny fel rhan o ddeunyddiau prosesau datblygu, diogelu a sefydlu'r gweithlu.

Mae sicrhau bod y rhai sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd yn cael mynediad at wybodaeth glir, gywir a chyson am y gyfraith yn hanfodol i gynnal y cynnydd a gyflawnwyd hyd yn hyn.

Mae cyfres lawn o ddeunyddiau cymorth ar gael ar wefan ymgyrch *Stopio Cosbi Corfforol yng Nghymru*. Er enghraifft:

- taflenni gwybodaeth gyffredinol
- taflenni ffeithiau ar gyfer sectorau penodol, gan gynnwys ar gyfer yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a gwasanaethau cyfreithiol, iechyd, cymdeithasol, addysg, gofal plant/gwaith chwarae
- cwestiynau cyffredin
- deunyddiau hyfforddi ac eDdysgu
- fideos o safbwynt proffesiynol
- taflenni amlieithog i rieni

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- poster
- ffilm fer sy'n esbonio'r gyfraith.

Mae effaith gyfunol newid y gyfraith, ymgysylltu â'r cyhoedd, a chymorth i rieni yn anelu at barhau i leihau'r defnydd a'r goddefgarwch o gosb gorfforol. Amcan cyffredinol y Ddeddf yw diogelu plant a'u hawliau yn unol ag ymrwymiad hirsefydledig Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r gwaith hwn yn dod o dan system ehangach o gymorth rhianta, gan gynnwys ymgyrch *Magu Plant. Rhowch amser iddo* a rhaglenni wedi'u targedu fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, yn ogystal â gwasanaethau cyffredinol a ddarperir gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu a gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd.

Hoffwn gydnabod cefnogaeth ac arbenigedd pawb sydd wedi cyfrannu at weithredu'r Ddeddf dros y blynyddoedd diwethaf. Mae eich arweinyddiaeth yn ganolog i gynnal y momentwm a sicrhau bod teuluoedd ledled Cymru yn parhau i gael cymorth a negeseuon cyson.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â StopioCosbiCorfforol@llyw.cymru.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus ac am y gwaith hanfodol rydych chi'n ei wneud i blant a theuluoedd.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care